



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD AR BELLTER A GYNHALIWIYD DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 8^{FED} RHAGFYR 2021 AM 10:30AM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol a Thai), N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydlun), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), E. Stenner (Perfformiad, Economi a Menter), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a Fflyd) ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd a:

D. Street (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol) a M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth y Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog S151), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), M. Headington (Rheolwr Gwasanaethau Mannau Gwyrdd a Thrafnidiaeth), S. Mutch (Rheolwr Blynnyddoedd Cynnar), P. Hudson (Arweinydd Tîm Adnewyddu Menter Busnes), N. Taylor-Williams (Pennaeth Tai), S. O'Donnell (Swyddog Ardrethi Annomestig), M. Afzal (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor) ac S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

a'r:

Cynghorydd C. Mann.

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor - [Cliciwch yma i'w weld](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs C. Harrhy (Prif Weithredwr).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau, nac yn ystod, y cyfarfod.

3. CABINET – 24^{AIN} TACHWEDD 2021

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24^{ain} Tachwedd 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan y 23^{ain} Chwefror 2022. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithredol yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly'n gallu newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynodd Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-2032 arfaethedig a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022 i'w gyhoeddi a'i weithredu erbyn mis Medi 2022.

Nododd y Cabinet fod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn amlinellu sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ystod eang o randdeiliaid i weithio tuag at gyflawni uchelgais Cymraeg 2050 o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â'r Rhaglen Lywodraethu 2021-2026. Manylwyd ar y camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd y targed hwn a nodwyd eu bod yn cynnwys adeiladu ysgol gynradd newydd ac ehangu eraill i greu'r lleoedd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi gwaith y Fforwm Addysg Gymraeg a oedd yn cynnwys sut mae'r Cyngor yn datblygu ac yn hyrwyddo darpariaeth drochi hwyrddyfodiaid yn ogystal â mwy o weithlu sy'n siarad Cymraeg.

Cyfeiriwyd at y broses ymgynghori a ddaeth i ben ar 5^{ed} Rhagfyr 2021 a rhoddodd Swyddogion y wybodaeth ddiweddaraf am y sylwadau a dderbyniwyd.

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am ba gynlluniau sydd ar waith i gynyddu nifer yr athrawon Cyfrwng Cymraeg. Mewn ymateb, pwysleisiodd y Rheolwr Blynyddoedd Cynnar bod angen gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd i hyrwyddo gyrfaeodd mewn addysg a gofal plant i siaradwyr Cymraeg. Amlygwyd nifer o lwybrau gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i gael taith gynyddol a chefnogi cynlluniau galwedigaethol i annog pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r gweithlu addysg a gofal plant.

Nododd a chroesawodd y Cabinet y newid yn y categoreddio gan Estyn ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth fe'i cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad diwygiedig. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2023 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022.

6. COVID-19 – FFRAMWAITH ADFER ECONOMAIDD

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y fframwaith adfer economaidd sy'n cynnwys tri cham penodol, y cyfnod Ailgychwyn, y cyfnod Adfywio a'r cyfnod Adnewyddu.

Nododd y Cabinet mai ffocws yr adroddiad hwn oedd y cyfnodau Adfywio ac Adnewyddu, yn dilyn cyfnod Ailgychwyn 'dan arweiniad y Llywodraeth' cychwynnol a gyflwynodd gymorth ariannol a chyflogwyr yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Pandemig COVID-19 wedi achosi aflonyddwch digynsail i gymunedau a'r economi leol ac mewn ymateb roedd y Cyngor wedi paratoi fframwaith ar gyfer adfer a oedd yn anelu at gefnogi'r Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol ehangach i wella. Cafodd y fframwaith adfer economaidd, 'Cyflawni Ffyniant ar ôl COVID-19' ei baratoi i gyflawni'r amcan strategol Cefnogi Busnes. Er bod effaith y pandemig ar yr economi leol yn dod yn gliriach ers y cyfnod ailgychwyn, gyda diwydiannau sy'n dibynnu ar ryngweithio personol yn dioddef mwy nag eraill, mae'r effeithiau tymor hwy ar y newidiadau strwythurol i ddiwydiant ac economi gwasanaethau i'w deall o hyd.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at wahanol adrannau'r adroddiad a oedd yn manylu ar bob cam a'r amcanion a geir ynddo. Nodwyd bod y camau manwl i'w cymryd dros gyfnod y fframwaith wedi'u nodi yn yr atodiad i'r adroddiad a byddai angen cymorth ariannol ar nifer o'r camau hynny i'w cyflawni.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a chofnodwyd eu diolch i Swyddogion am eu holl waith caled yn cefnogi busnesau drwy gydol y pandemig a gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Codwyd nifer o ymholiadau mewn perthynas â chyflogi Swyddog Cymorth Masnach Ryngwladol am gyfnod penodol i weithio gyda busnesau ar draws y Fwrdeistref Sirol i gefnogi eu gofynion a'u dyhead masnachu tramor. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd Tîm Adnewyddu Mentrau Busnes nad yw'n ymwybodol o'r swydd hon mewn unrhyw awdurdod lleol arall ac amlinellodd yr effaith y bydd y rôl hon yn ei chael ar fusnesau lleol. Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet hefyd am y grantiau datblygu diweddaraf a nodwyd bod gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru wedi datblygu adferiad economaidd.

Cofnododd yr Arweinydd ei diolch i Swyddogion am yr holl waith a oedd wedi'i wneud i baratoi'r adroddiad ar gyfer y Cabinet.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno ar gyfeiriad strategol, amcanion a chynllun gweithredu'r Cyfnodau Adfywio ac Adnewyddu.

7. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2022-2023

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn manylu ar Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23 at ddibenion pennu trethi a'r ganran gasglu i'w chymhwyso.

Nododd y Cabinet fod Rheoliadau Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'u diwygiwyd yn nodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw'r mesur o gapasiti trethadwy cymharol gwahanol ardaloedd o fewn y Fwrdeistref Sirol ac fe'i cyfrifir yn unol â rheolau rhagnodedig.

Cyfeiriwyd y Cabinet at adran 5.6 o'r adroddiad a'r tabl a gynhwyswyd ynddo a oedd yn manylu ar sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Swyddog S151 grynoded byr a thynnwyd sylw at y ffaith bod y pandemig wedi cyflwyno llawer o heriau o ran casglu Treth y Cyngor, ond nodwyd bod yr awdurdod yn mynd ati i ddilyn holl ôl-ddyledion Treth y Cyngor felly bydd y gyfradd gasglu o 97.5% yn cael ei chynnal. Nododd y Cabinet fod Ffurflen Anheddau Treth y Cyngor ar gyfer 2022-23, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd y data a gyflwynir gan bob awdurdod lleol yn rhan bwysig o gyhoeddiad y setliad dros dro ar 21^{ain} Rhagfyr 2021.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

1. Mae cyfradd casglu Treth y Cyngor yn cael ei chynnal ar 97.50% ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.
2. Dylai'r Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23 fod yn £61,062.71, a dylid cymeradwyo Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer pob ardal Cyngor Cymunedol fel yr amlinellir ym mharagraff 5.6.

8. GWEITHREDU DATRYSIAD CYFARFOD HYBRID

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gaffael a gweithredu datrysiad cyfarfod hybrid yn Nhŷ Penallta a fydd yn galluogi'r rhai sy'n mynychu i gymryd rhan lawn a di-dor mewn achosion cyfarfod naill ai'n bersonol (yn gorfforol) neu o ystod o leoliadau anghysbell (rhithwir).

Nododd y Cabinet fod y mwyafrif helaeth o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Gyngor Caerffili wedi'u cynnal o bell. Er bod yr arfer hwn bellach wedi'i wreiddio'n llawn, mae'n anochel y bydd mwy o Aelodau a Swyddogion Etholedig, rywbryd yn y dyfodol, yn dewis cymryd rhan yn gorfforol mewn cyfarfodydd a bydd rhai Aelodau a Swyddogion yn dewis cymryd rhan, neu y bydd angen iddynt gymryd rhan, yn y cyfarfodydd hynny o bell.

Nodwyd bod Aelodau Caerffili hefyd wedi ei gwneud yn glir, wrth ddechredu i'r siambr yn bersonol, eu bod yn dymuno cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yn yr un modd ag yr oeddent yn gallu gwneud hynny cyn y pandemig. Byddai hyn yn golygu sefyll, siarad â'r ystafell a phleidleisio fel y gwnaethant o'r blaen, rhywbeth na all y llwyfan presennol ei gynnig ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd y Cabinet fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn dal i weithio gartref lle bynnag y bo modd a bod cadw pawb yn ddiogel yn allweddol.

Nododd y Cabinet sut y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar ymrwymiad y Cyngor i Amrywiaeth mewn Democratiaeth gan ystyried gwahanol ffyrdd o gefnogi Cyngorwyr gydag ymrwymiau eraill. Byddai'n darparu llwyfan a fyddai'n galluogi cyfranogiad pellach yn y broses ddemocrataidd ar gyfer unigolion na allent fynychu cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol yn hawdd.

Nododd y Cabinet hefyd ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n cyflwyno'r cysylltiad rhwng cyfarfodydd 'aml-leoliad' a chyfrifoldeb y Cyngor i gefnogi presenoldeb corfforol a rhithwir. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau ffrydio'n fyw cyfarfodydd cyhoeddus ynghyd â'r gofyniad presennol i gyfieithu cyfarfodydd i'r Gymraeg ar yr un pryd, ac nid yw hynny'n rhywbeth y gall y llwyfan presennol ei ddarparu ar hyn o bryd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

1. Mae'r contract ar gyfer gweithredu datrysiad Cyfarfod Hybrid a chaledwedd cysylltiedig yn cael ei ddyfarnu i Gyflenwr B am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd gydag opsiwn i ymestyn am hyd at gyfnod pellach o 3 blynedd.
2. Cytunir ar gostau cyfalaf untro'r datrysiad gwerth £124,899 a'r gwaith uwchraddio seilwaith trydanol cysylltiedig o tua £7 mil o'r Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd gan y Gwasanaethau Aelodau.
3. Dylid talu cyfanswm y costau parhaus o £126,841 ar gyfer y llwyfan meddalwedd a'r cymorth a'r gwaith cynnal a chadw cysylltiedig ar gyfer tymor tair blynedd gychwynnol y contract drwy sefydlu cronfa benodol a glustnodwyd o gyllideb Cyfraniad Refeniw Cyllid Amrywiol 2021/22 i'r Gwariant Cyfalaf.

9. CYFUNDREFNAU TORRI GLASWELLT

Rhoddyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Cabinet mewn perthynas â chyfundrefnau torri glaswellt ar draws y Fwrdeistref Sirol a chynigion i wella a hyrwyddo bioamrywiaeth ar ôl ymgynghori ag aelodau lleol.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei gyfarfod ar 26^{ain} Hydref 2021.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod y cyfyngiadau symud cenedlaethol a lleol wedi gorfodi trigolion i ryngweithio â'u hamgylchedd mewn ffordd newydd. Tra bod pobl yn gweithio gartref lle gallent, daeth yr amgylchedd lleol yn ffynhonnell gwerthfawrogiad, a oedd o fudd i breswylwyr â'u lles corfforol a meddyliol. Trwy haf 2021 cynhaliwyd ymarfer ymgynghori gydag aelodau lleol i nodi ardaloedd addas yn eu priod wardiau y gellid caniatáu iddynt ffynnu yn ystod cyfnod yr haf. Marciwyd y lleoedd hyn â phlac pren yn diolch i'r preswylwyr am ganiatáu i'r ardal bwrpasol dyfu i fod yn fannau ecogyfeillgar.

Nododd y Cabinet sut y byddai'r cyfundrefnau nid yn unig yn gwella'r amgylchedd lleol ond byddai'n helpu i gyflawni dyletswydd bioamrywiaeth statudol y Cyngor ac yn helpu gydag ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Hinsawdd.

Codwyd cwestiwn mewn perthynas ag ardaloedd ychwanegol o dir a dywedwyd wrth y Cabinet y bydd Swyddogion yn parhau i weithio gydag aelodau lleol i nodi ardaloedd addas wrth i'r rhaglen gael ei hehangu. Gofynnodd Aelod o'r Cabinet i ymgynghori ag aelodau ward lleol os bydd Swyddogion yn nodi unrhyw ardaloedd addas eraill.

Ar ôl ystyried a thrafod, fe'i symudwyd a'i heiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog. Trwy bleidlais electronig cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog i wneud y canlynol:-

1. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn ystod tymor torri 2021 yn cael ei fabwysiadu fel y safon wrth symud ymlaen mewn perthynas â'n lleiniau priffyrdd a'n llwybrau osgoi lle cedwir y gwaith torri i'r lleiafswm.

2. Bod ardaloedd trefol, megis ystadau tai, llety i bobl hŷn, mynwentydd ac ati yn cael eu cynnal ar yr amleddau torri presennol.
3. Bod y rhestr o ardaloedd a enwebir gan swyddogion ac aelodau lleol yn eu priod wardiau, y gellid caniatáu iddynt ffynnu yn ystod cyfnod yr haf, yn cael eu cymeradwyo a Swyddogion i weithio'n barhaus gydag aelodau lleol i nodi ardaloedd wrth i'r rhaglen gael ei hehangu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.17am.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Ionawr 2022.

CADEIRYDD